

Newyddion da

“Y mae’r sawl sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad.” (adn.9)

Beth am ddarlenn Ioan 14:1–14 ac yna myfyrio

Yr ydym am edrych yn awr ar elfen arall yng nghreadigaeth yr eglwys yn Antiochia. Daeth i fodolaeth oherwydd y newyddion da am Iesu Grist. Dyma’r hyn y mae Actau 11:20 yn dweud wrthym: “Ond yr oedd rhai ohonynt yn bobl o Cyprus a Cyrene a dechreusant hwy, wedi iddynt ddod i Antiochia, lefaru wrth y Groegiaid hefyd, gan gyhoeddi’r newydd da am yr Arglwydd Iesu.”

Mae’r neges am Iesu Grist yn sylfaenol i’r Eglwys Gristnogol. Wrth anghofio hynny, yr ydym yn gosod yr Eglwys mewn sefyllfa beryglus iawn. Nid yw’r Efengyl yn cyfeirio yn unig at berson Crist; mae’r Efengyl yn gorwedd ym mherson Crist. Ni ddaeth Iesu i ddwyn y newyddion da yn unig; ef yw y newyddion da. Ni ddaeth i ddangos y ffordd yn unig; ef yw y ffordd. Ni ddaeth i gyfeirio at y gwirionedd yn unig; ef yw y gwirionedd. Cyfeiriodd Moses at y gyfraith, cyfeiriodd Mohammed at y Qur’an, Confucius at yr Analectiaid, Buddha at y Llwybr Wythblyg. Cyfeiriodd Iesu at ef ei hunan gan ddweud: “Deuwch ataf fi bawb a’r y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch. (Mathew 11:28) Ni all neb llai na Duw ei hun wneud hyn heb fod yn euog o gymryd enw Duw yn ofer. Yn y fan hyn, cawn afael mewn un sydd ag awdurdod priodol i siarad.

Nid oes y fath beth â hanner ffordd ynglŷn â hyn. Naill ai mae Iesu yn Dduw neu nid yw yn dda. Pan welodd Thomas y Crist atgyfodedig am y tro cyntaf, cyffesodd: “Fy Arglwydd a’ m Duw.” (Ioan 20:28). Ni fu i Iesu ymateb trwy ddweud: “Thomas, rwyt ti wedi camgymryd. Efallai mai fi yw dy Feistr, ond nid dy Dduw”. Na, fe dderbyniodd addoliad Thomas fel Duw oherwydd ei fod yn Dduw. Mae’n wir dweud fod unrhyw eglwys sydd wedi ei hadeiladu ar sylfaen arall heb fod yn eglwys o gwbl. Efallai fod ganddi safbwyntiau da, ond dim newyddion da.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Ioan 1:1–14; 5:18; 6:30–58; 8:51–59; 10:39; 1 Tim. 2:5

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa mor bwysig yw dwyfoldeb Iesu?
2. Pa mor bwysig yw dyndod Iesu?

Gweddi

O Dad, rwy’n diolch i ti am ddod i’r byd yma ym mherson dy Fab. Wrth gyhoeddi hyn, nid cyhoeddi safbwynt a wnawn ond newyddion– newyddion da! Yr wyf yn diolch i ti am gael cyhoeddi’r fath newyddion. Amen.